# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd Rhagfyr 2020 am 7.30 pm drwy fynychu o bell

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**352 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Dai Evans, Alwen Thomas ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**353 Personol**

Cyfeiriwyd at yr angen i gau Ysgol Ciliau Parc oherwydd Covid 19 a mynegodd yr Aelodau pob cefnogaeth i'r staff a'r plant a'u rhieni.

**354 Datgelu Buddiant**

Roedd y Cynghorydd Iwan Thomas wedi datgelu buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A200945 a drafodir o dan cofnod 358a) isod, pan y'i ddosbathwyd gan y Clerc ar ebost cyn y cyfarfod. Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Thomas yn bresennol yn y cyfarfod.

**355 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Tachwedd 2020.

**356 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Y pafin a'r ffordd o flaen Cae Morgan - dywedodd y Clerc ei fod cael gwybod gan y Cyngor Sir na fyddai swyddog yn dod allan i archwilio'r mater yn ystod y cyfnod presennol.
b) Cystadleuaeth - Delio gyda Baw Cŵn yn y Cymuned - nodwyd nad oedd y mater yn mynd yn ei flaen yn ystod y cyfnod presennol.
c) Parcio Anghyfrifol ar y B4339 - Nodwyd na chafwyd gwybodaeth pellach gan yr Heddlu hyd yn hyn.

**357 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNIWYD** talu'r canlynol:

Tanysgrifiad Blwyddyn Zoom (50%) - £60
Apêl y Pabi - £25
*Cyflog (Gorff-Rhag 6 Mis):*
Denfer Morgan - £589.82
CThEM (TWE) - £147.46

**358 Ceisiadau Cynllunio**

**PENDERFYNWYD** nodi'r sylwadau a anfonwyd ynghylch y ceisiadau cynllunio isod yn dilyn rhannu sylwadau drwy e-bost

a) *A200945 - Penrhiw Cottage, Ciliau Aeron. Demolition of original cottage, and erection of replacement dwelling.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

b) *A200951 - Brynaeron, Ciliau Aeron. Forming a new entrance to existing dwelling.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**359 Ysgol Gynradd Cilcennin**

Rhoddwyd ystryiaeth i lythyr dyddiedig 4ydd Tachwedd oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion "am unrhyw sylwadau a allai fod gan y Cyngor mewn perthynas â chau'r Ysgol'. Fe fyddai unrhyw sylwadau yn cael eu trafod gan Banel cyn eu cymeradwyo i'r Cabinet.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cynnig y sylwadau canlynol ar gyfer y defnydd o'r adeilad a'r tir o'i gwmpas yn y dyfodol:-

- y mae angen 'man gwyrdd' lle gall trigolion y pentref drefnu digwyddiadau awyr agored gan gynnwys sesiynau cadw'n heini, ffeiriau ayb.
- deëllir fod yna alw am ysgol feithrin yn yr ardal gan fod yna ddiffyg darpariaeth yn gyffredinol a bod y rhai agosaf yn llawn.
- deëllir taw ymgynghoriad cychwynnol yw hwn a dymuniad y Cyngor yw fod y Cyngor Sir yn cadw mewn cysylltiad wrth benderfynnu'r camau nesaf yn y broses o drafod dyfodol yr ysgol.

**360 Tystion Jehovah**

Nodwyd fod y Tystion Jehovah wedi ysgrifennu at yr Aelodau yn ddiweddar.

**361 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Ray Williams at ymgynghoriad Sustrans ar Gerdded a Beicio yng Ngheredigion. Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams hefyd at sbwriel a adawyd yn anghyfreithlon ar hyd y ffordd sy'n arwain o Blas Bach, hebio i'r Comins i Ddyffryn Arth a chytunwyd cyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir.

b) Gofynwyd i'r Clerc gyfeirio i'r Cyngor Sir manylion digwyddiad diweddar pan geisiodd fan a oedd yn dosbarthu nwyddau fynd ar hyd lwybr troed 39/345 ar Allt y Bont Newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:35pm